Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr

**Heol St Alban**
**Brynmill**
**Abertawe**
**SA2 0BP**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 277 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 195 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 56 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 9.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 7.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 40.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 06/01/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 14/03/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 29/01/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae’r disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn yr ethos hapus a chyfeillgar sy’n bodoli yn yr ysgol. Mae’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel iawn o fewn naws gartrefol a chynhwysol yr ysgol, ble mae pawb yn parchu ei gilydd ac yn ofalgar iawn o’i gilydd. Mae’r iaith Gymraeg wrth galon yr ysgol ac mae balchder y disgyblion at y Gymraeg yn amlwg. Maent yn defnyddio’r iaith yn gwbl naturiol y tu fewn a thu allan i’r dosbarth.

O dan arweiniad gwybodus y pennaeth, mae’r staff yn darparu cwricwlwm arloesol a chyffrous sy’n galluogi disgyblion i gaffael y wybodaeth a’r medrau angenrheidiol i gefnogi eu gwaith. Mae hwn yn nodwedd gref. Mae’r athrawon yn ystyried syniadau’r disgyblion yn ofalus ynghyd â chynnig cyfleoedd iddynt ddewis sut yr hoffent ddysgu. Er bod y ddarpariaeth yn gadarn yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, nid yw’r ddarpariaeth yn herio ychydig o ddisgyblion yn y cyfnod dysgu sylfaen yn ddigonol. O ganlyniad, nid ydynt yn cyflawni hyd orau eu gallu.

Mae agwedd y disgyblion at eu dysgu yn ardderchog ac mae eu hymddygiad yn rhagorol. Mae’r rhan fwyaf yn ymgysylltu’n syth ar ddechrau pob gwers ac yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch yn yr hyn maent yn ei gyflawni. Mae’r disgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus ac aeddfed. Fodd bynnag, mae ymateb ysgrifenedig athrawon i helpu disgyblion i wybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella a sut gallant wella eu gwaith yn anghyson.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol sydd yn seiliedig ar ddatblygu lles a chyfleoedd i ddisgyblion ffynnu. Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o’r ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o’u rolau a’u cyfrifoldebau. Maent yn cefnogi arweinwyr a staff yn effeithiol. Mae’r pennaeth, gyda chefnogaeth y staff a’r llywodraethwyr, yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu cadarn.

## Argymhellion

A1 Gwella darpariaeth yn y cyfnod dysgu sylfaen i sicrhau bod y disgyblion yn cael eu herio i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A2 Cryfhau'r adborth i ddisgyblion er mwyn eu cynorthwyo i wybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol islaw i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau o'u mannau cychwyn. Yn ystod eu gwersi, mae bron bob un yn canolbwyntio'n arbennig o dda, yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn dwyn eu dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus.

Ychydig o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn gwbl naturiol wrth ddechrau yn yr ysgol. Er hynny, mae'r mwyafrif o ddisgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol gyda'r Gymraeg yn ail iaith iddynt yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus erbyn diwedd eu hamser yn y dosbarth derbyn. Erbyn Blwyddyn 3, maent yn sgwrsio'n naturiol gyda'I gilydd yn ystod gwersi ac wrth chwarae yn ystod amser egwyl. Pan gyrhaeddant Blwyddyn 6, maent yn siaradwyr byrlymus ac aeddfed a chlywir acen yr ardal ar leferydd y disgyblion. Mae balchder y disgyblion tuag at yr iaith Gymraeg yn treiddio drwy'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin yn mwynhau gwrando ar straeon a thrafod y cymeriadau'n syml, fel yr anifeiliaid yn stori Mrs Wishi Washi. Mae disgyblion Blwyddyn 1 yn dechrau ymgyfarwyddo â chynnwys llyfrau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i drefnu digwyddiadau yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen gyda rhuglder cynyddol ac yn defnyddio dulliau priodol i adeiladu geiriau sy'n anghyfarwydd iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ogystal â thrafod eu llyfrau'n aeddfed, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn cywain gwybodaeth i ymchwilio i effaith tanwydd ffosil ar yr amgylchfyd. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn darllen ystod o destunau heriol ac yn cymhwyso'u medrau yn effeithiol i gefnogi'u dysgu mewn amrywiol gyd-destunau.

Mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ym mhob maes o'r cwricwlwm. Mae disgyblion yn y dosbarth meithrin yn dechrau creu marciau gan ddefnyddio amrywiol gyfryngau yn llwyddiannus. Yna, mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn dechrau ffurfio llythrennau a geiriau syml wrth ysgrifennu am anturiaethau Ffred y ci. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu darnau disgrifiadol a diddorol yn gynyddol gywir, er enghraifft wrth greu portread o archarwyr ac wrth ddwyn i gof chwedl Dinas Emrys. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn datblygu eu medrau'n bwrpasol gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio ystod o eirfa briodol wrth ysgrifennu. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu i safon dda. Maent yn cyfleu emosiynau yn grefftus wrth greu dyddiadur ifaciwî yn y Gymraeg ac yn mynegi eu barn yn gadarn am fanteision ac anfanteision twristiaeth yn Eryri yn Saesneg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dod i adnabod rhifau a siapiau 3D syml ac yn datblygu dealltwriaeth o fesur yn dda. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol trwy weithgareddau y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Maent yn defnyddio gwrthrychau naturiol yn grefftus wrth gymharu taldra ei

gilydd yn yr ysgol goedwig. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, wrth ymgymryd â menter busnes, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ymchwilio i gostau nwyddau i greu cynnyrch, yn dangos dealltwriaeth gadarn o sut i wneud elw ac yn adnabod y posibiliadau o wneud colled yn effeithiol.

Mae medrau digidol disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2 yn defnyddio cyfrifiaduron yn gynyddol hyderus i gefnogi eu medrau llythrennedd a rhifedd. Yn ogystal, ym Mlwyddyn 2, maent yn defnyddio llechen yn aeddfed i gofnodi eu gwaith yn annibynnol. Maent yn defnyddio'r sgrin werdd yn effeithiol i greu lluniau byw o'u hoff leoedd yng Nghymru gan efelychu crwydr Barti a Bel. Erbyn Blwyddyn 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau defnyddio amrediad o raglenni amrywiol i gyflwyno eu gwaith ac i greu gemau syml. Ar frig yr ysgol, maent yn defnyddio bas data'n fedrus i ddarganfod gwybodaeth, er enghraifft wrth ddysgu am sawl awyren gollodd yr awyrlu yn yr Ail Ryfel Byd. Maent hefyd yn arddangos medrau creadigol pwrpasol wrth greu animeiddiad o effaith diffyg bwyd ar gymuned.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol cadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Datblygant ystod dda o dechnegau i greu darluniau arsylwadol o adar ac i ddefnyddio adnoddau naturiol o'r amgylchfyd leol i greu celf syml gyda dail yn y dosbarth meithrin. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu hyder ac yn ymgysylltu'n frwdfrydig wrth berfformio yn y côr a thrwy gyfansoddi cerddoriaeth samba. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau corfforol gyda hyder cynyddol. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi ac yn ymestyn eu medrau'n  dda trwy fynychu clybiau'r ysgol ac yn cystadlu'n lleol a thu hwnt i'w hardal. At ei gilydd, nid yw medrau meddwl a datrys problemau y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi'u datblygu cystal.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Ar draws yr ysgol, mae balchder y disgyblion tuag at eu hysgol yn gwbl amlwg, gydag ymdeimlad cryf o berthyn i un teulu. Maent yn dangos parch, cwrteisi a charedigrwydd tuag at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr. Mae dal drws a chyfarch â gwên yn rhan naturiol o'u hymagwedd ac yn cyfrannu at ethos croesawgar a chynnes yr ysgol. Mae bron bob disgybl yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg ac yn ymddiried yn y staff. Maent yn falch iawn o siarad Cymraeg.

Mae bron bob un yn ymddwyn yn rhagorol yn ystod gwersi, wrth weithio'n annibynnol ac wrth chwarae gyda'u ffrindiau yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n llawn â'u dysgu, ac yn arddangos agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith. Mae bron bob disgybl yn lleisio eu barn am beth hoffent ei ddysgu a sut hoffent gyflwyno eu gwaith. Ymfalchïant yn eu mewnbwn i'r unedau dysgu ac maent yn siarad â dealltwriaeth gref am yr hyn maent wedi ei gyflawni.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni gweithgareddau. Maent yn rhoi cynnig ar dasgau newydd yn frwdrydig, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 4 a 5 ddyfalbarhau i ddarganfod effaith ychwanegu nifer o wrthrychau ar lif trydanol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn dda, gyda disgyblion yn aelodau brwd o bwyllgorau a chynghorau plant. Maent yn trafod yn hyderus sut maent yn dylanwadu ar fywyd yr ysgol, yn ystyried barn yr holl ddisgyblion ac yn cynnig rhesymau deallus am wneud penderfyniadau. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi 'arwain y fordd' i ddisgyblion Bryn y Môr i fod yn 'siaradwyr Cymraeg, yn barod, yn ddiogel ac yn barchus yn eu bywydau'. Mae'r ethos hwn yn treiddio'n amlwg drwy'r ysgol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus i ddatblygu dealltwriaeth eu cyfoedion o fod yn ddinasyddion moesol a gwybodus. Yn ogystal, mae'r pwyllgor lles wedi cynllunio parthau ym mhob dosbarth i ddisgyblion i fedru rheoli e'u hemosiynau. Mae'r ardaloedd hyn wedi helpu nifer o ddisgyblion i ymdawelu cyn medru ailymgysylltu â'u gwaith yn chwim ac yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach a chadw'n heini. Maent yn esbonio pam mae'n fuddiol bwyta byrbrydau iach yn ystod amseroedd chwarae a pham y dylid osgoi bwydydd gyda gormod o siwgr. Mae llawer yn ymroi'n dda i weithgareddau sy'n datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth i'r disgyblion ieuengaf ddysgu patrymau dawns draddodiadol Gymreig. Mae'r disgyblion hynaf yn mynychu clybiau allgyrsiol wythnosol fel chwaraeon a pherfformio. Maent yn datblygu eu medrau pêl-droed a phêl-rwyd yn fedrus ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn cystadlaethau a thwrnameintiau lleol a rhanbarthol. Mae bron bob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein ac yn deall pwysigrwydd peidio â rhannu cyfrineiriau ac unrhyw wybodaeth yn ddigidol gydag eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol trwy eu hymwybyddiaeth o'r hawliau sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu am werthoedd i gefnogi eraill yn llwyddiannus ac maent yn awyddus i godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Yn ddiweddar, cyfrannodd y disgyblion i elusen iechyd meddwl yn dilyn 'gig' band Cymraeg yn yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n adeiladu ar ddealltwriaeth y disgyblion o'u medrau yn effeithiol. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru, ac mae hi wedi dylanwadu'n feistrolgar ar allu'r athrawon i gynllunio bwydlen o weithgareddau cyffrous a chyfoethog. Mae'r cwricwlwm wedi ei seilio ar ddarparu ystod gytbwys ac eang o brofiadau sy'n ennyn chwilfrydedd, balchder a mwynhad y disgyblion.

Mae'r staff wedi cydweithio'n effeithiol â disgyblion, rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr i ffurfio eu gweledigaeth sy'n adlewyrchu'r pedwar diben y cwricwlwm yn llwyddiannus ac yn berthnasol i gymuned Bryn-y-Môr. Mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu natur y gymuned yn llwyddiannus, gyda'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n ystyried cyd-destun yr ysgol, yr ardal leol a'r byd ehangach. Er enghraifft, mae gweithgareddau sy'n dyfnhau dealltwriaeth y disgyblion o fywyd adeg Blits Abertawe a dysgu cerddi gan feirdd lleol yn allweddol i'w hymdeimlad o berthyn i'w cynefin. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddwysáu eu gwybodaeth drwy ymweld ag amgueddfeydd lleol i ddysgu am fywyd eu cyndeidiau a chynnig cyfleoedd preswyl tu hwnt i'r ardal leol sy'n ehangu eu gwybodaeth am Gymru. Maent yn manteisio ar grantiau cenedlaethol i fanteisio ar

gael artist lleol i greu darnau trawiadol o gelf sy'n cynrychioli enwogion dylanwadol Cymru.

Mae'r staff yn cydweithio'n dda i sicrhau bod y ddarpariaeth yn adeiladu'n drefnus ar wybodaeth flaenorol y disgyblion. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y disgyblion wedi cael ei blethu'n gelfydd ar draws y cwricwlwm ac yn sicrhau bod pwrpas penodol i'r gweithgareddau dysgu. Er enghraifft, mae sesiynau dyddiol i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o eirfaoedd sy'n ymwneud â'r unedau dysgu yn cyfoethogi eu hiaith yn dda. Mae hyn yn dylanwadu'n llwyddiannus ar fedrau llythrennedd disgyblion mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Mewn llawer o'r dosbarthiadau lle mae'r addysgu ar ei orau, mae disgwyliadau'r athrawon yn uchel, a threfniadaeth y dosbarth yn gadarn. Yn y dosbarthiadau hyn, mae'r athrawon yn ysgogol, yn herio'r disgyblion ac yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd dysgu yn fewnol a thu allan i'r dosbarth. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws yr ysgol ac mae hyn yn rhwystro ychydig o ddisgyblion yn y cyfnod dysgu sylfaen rhag cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn diwallu anghenion gwahanol grwpiau yn dda. Maent yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol i gynllunio ar gyfer ystod o allu. Mae trafodaethau rheolaidd am gyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion yn sicrhau bod athrawon yn ymateb yn brydlon i anghenion disgyblion ac yn darparu'r gefnogaeth briodol. Mae cynorthwywyr addysgu yn cefnogi disgyblion yn fedrus iawn, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, heriau ymddygiad ac unigolion bregus.

Mae'r staff yn defnyddio ystod o ddulliau holi yn effeithiol i sicrhau dealltwriaeth disgyblion yn ogystal â llywio cyfeiriad eu dysgu. Maent yn rhannu nod y gwersi yn effeithiol, ac yn cynnwys y disgyblion yn dda mewn trafodaethau cychwynnol wrth sôn am beth sydd angen iddynt ei wneud i lwyddo yn eu tasgau. Mae hyn yn sicrhau cyd-ddealltwriaeth dda o ddisgwyliadau sy'n arwain at welliannau yn safon gwaith y disgyblion. Ar y cyfan, mae athrawon yn cynnig adborth llafar buddiol sy'n annog disgyblion i ystyried beth maent yn ei wneud yn dda a sut y gallant wella'u gwaith. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd aml i ddisgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion ac, o ganlyniad, erbyn brig yr ysgol mae medrau disgyblion i werthuso gwaith ei gilydd yn aeddfed iawn. Fodd bynnag, mae ansawdd adborth ysgrifenedig athrawon yn amrywio ar draws yr ysgol ac nid yw'n cynnig arweiniad clir i herio'r disgyblion yn ddigonol i wella eu gwaith.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ethos hapus, cynhwysol a chroesawgar iawn yn yr ysgol. Mae'r pwyslais cryf ar ddathlu eu cynefin a pharchu eraill yn cyfrannu'n werthfawr at ddatblygu disgyblion sy'n gwrtais, yn ymddwyn yn dda ac yn falch o'u hysgol a'u cymuned. Mae staff yn cynllunio cefnogaeth yn ofalgar er mwyn diwallu anghenion emosiynol, personol a chymdeithasol y disgyblion. Mae bron bob disgybl yn dangos empathi a pharch at eu cyfoedion a'r staff, gyda phawb yn dangos gofal tyner dros ei gilydd.

Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r ystyriaeth a roddir i les emosiynol a meddyliol y disgyblion trwy gynnig cyfleoedd helaeth iddynt drafod eu teimladau. Mae'r sesiynau

‘cadw golwg’ dyddiol yn bodloni gofynion lles y disgyblion yn dda ac yn galluogi’r staff i ymateb yn brydlon i unrhyw bryder. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol ac maent yn hapus. Yn ychwanegol, mae’r defnydd o’r parthau ymdawelu yn rhoi cyfle i’r disgyblion reoli eu hemosiynau’n llwyddiannus mewn lle diogel a chyfarwydd.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn monitro ac olrhain cynnydd y disgyblion o’u mannau cychwyn yn ofalus ac yn cynllunio amserlen gynhwysfawr o raglenni cefnogi sy’n ymateb i ofynion y disgyblion yn effeithiol. Maent yn cydweithio’n agos â rhieni ac mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol ac wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Gwna’r ysgol ddefnydd da o asiantaethau allanol fel seicolegwyr addysg a’r tîm iaith a lleferydd i gefnogi unigolion a’u teuluoedd. Yn ychwanegol, mae cynorthwywyr addysgu’n gweithio’n wybodus ac yn fedrus iawn wrth gefnogi nifer o ddisgyblion ar lawr y dosbarth.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai o aelwydydd ag incwm isel a’r rhai sydd ag ADY, i ddylanwadu’n gryf ar benderfyniadau strategol yn ogystal â chynnwys eu hunedau dysgu. Mae effaith gwaith y cynghorau a phwyllgorau disgyblion i’w gweld yn amlwg o amgylch yr ysgol ac wedi gwella lles, codi safon y Gymraeg ac agweddau'r disgyblion at gynaliadwyedd. Yn ogystal, trwy waith y cyngor ysgol a chysylltiadau agos â rhieni a'r gymuned leol, mae'r ysgol wedi trefnu diwrnod gyrfaoedd sydd wedi cynnig profiadau gwerthfawr i’r disgyblion am gyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywydau oedolion.

Mae diwylliant yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn bwrpasol. Mae cyfnodau cyd-addoli perthnasol yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion ystyried safbwyntiau eraill. At ei gilydd, ychydig iawn o gyfleoedd sydd gan ddisgyblion i ddysgu am gredoau a chrefyddau gwahanol. Er hynny, cynigir cyfleoedd da i ddisgyblion  fyfyrio yn ystod gwersi ar sut y gellir helpu eraill sy’n llai ffodus.

Mae’r ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o’u hunaniaeth, diwylliant a threftadaeth yn dda dros ben. Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddathlu hanes a thraddodiadau Cymru trwy ddigwyddiadau rheolaidd fel eisteddfodau, ymweliadau artistiaid a cherddorion, a dathlu beirdd enwocaf Cymru, fel T.Llew Jones. Yn ogystal, maent yn defnyddio’r gymuned leol yn grefftus fel adnodd addysgol i wneud astudiaethau amgylcheddol a dysgu sut i redeg busnes.

Mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau i hybu iechyd a ffitrwydd fel gwersi nofio, clybiau chwaraeon a sesiynau ymarfer corff. Mae arbenigwyr ffitrwydd yn cynnal gweithgareddau er mwyn hybu disgyblion i wneud dewisiadau cywir ynglŷn â beth i’w fwyta ac i ddatblygu medrau dawnsio. Mae hyn yn cyfrannu’n dda at ddatblygu’r disgyblion fel unigolion iach a hyderus. Mae cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion berfformio a datblygu’u dychymyg trwy’r celfyddydau mynegiannol a chreadigol, fel gweithio gydag artist lleol a thrwy fynychu gwersi chwythbrennau. Mae’r ysgol yn gosod pwyslais cryf ar ddarparu ystod gyfoethog ac amrywiol o deithiau ac ymweliadau i gefnogi'r cwricwlwm.

Mae prosesau'r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb yn effeithlon. Caiff unrhyw absenoldebau parhaus eu monitro'n drwyadl. Mae gan yr ysgol ddiwylliant a threfniadau cadarn er mwyn diogelu disgyblion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar gydweithio cadarn rhwng holl randdeiliaid yr ysgol, er mwyn darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer pob disgybl o fewn cymuned dysgu gynhwysol, gartrefol a Chymreig. Mae ei harweinyddiaeth ysbrydoledig wedi datblygu tîm o arweinwyr ay'n rhannu'r weledigaeth ac yn gwireddu amcanion yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chyfeillgar gydag ymdeimlad cryf o berthyn i deulu. Gwelir hyn trwy holl waith a bywyd yr ysgol.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn llwyddiannus ac mae cadw plant yn ddiogel yn flaenoriaeth amlwg. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a chyffyrddus yn yr ysgol. Yn ogystal, mae sicrhau lles y disgyblion a diwallu anghenion pob disgybl yn sylfaen i holl waith yr ysgol. Mae gan arweinwyr adnabyddiaeth gadarn o les pob plentyn ac mae hyn yn cyfrannu tuag at safonau da, agweddau cadarnhaol y disgyblion at eu gwaith a'r ymddygiad rhagorol a welir gan bron bob disgybl.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw eithriadol i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r pennaeth wedi arwain datblygiad  Cwricwlwm i Gymru yn feistrolgar. Mae dealltwriaeth y staff a'u disgwyliadau o gwricwlwm yr ysgol wedi dyfnhau, ac o ganlyniad, mae'r staff yn hyderus yn eu gallu i gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm eang ac arloesol. Mae hyn yn gryfder amlwg o fewn yr ysgol.

Mae'r gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso cadarn sy'n cael effaith lwyddiannus ar gyrhaeddiad disgyblion o ran gwella eu medrau a'u lles. Mae gweithdrefnau'n cynnwys mewnbwn y staff, a gwybodaeth a gesglir gan lywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Maent yn mesur cynnydd o fewn eu meysydd yn rheolaidd ac mae'r staff a'r arweinwyr yn monitro cynlluniau, yn craffu ar lyfrau disgyblion ac yn arsylwi ar y dysgu ac addysgu drwy arsylwadau gwersi a theithiau dysgu. Yn ychwanegol, mae cyfarfodydd rheolaidd i drafod cynnydd pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY. O ganlyniad, maent yn adnabod yr ardaloedd sydd angen eu gwella yn dda ac yn gosod camau clir a strategol er mwyn mynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, mae gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n ymestynnol wedi gwella.

Mae arweinwyr yn rheoli perfformiad staff yn gyson ac mae gan y staff adnabyddiaeth gref iawn o'u cryfderau ac agweddau i'w datblygu ymhellach. Mae'r diwylliant cryf o ddatblygu proffesiynol yn cyfrannu'n llwyddiannus at sefydlu a chynnal ysgol sy'n gynyddol ddysgu. Mae cyswllt amlwg rhwng yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu i'r staff â blaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn wybodus ac mae eu mewnbwn cadarnhaol a deallus yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau ar draws yr ysgol. Maent yn gefnogol iawn i'r pennaeth ac yn gweithio gyda hi a'r staff yn bwrpasol, gan gwestiynu effaith eu gwaith fel ffrindiau beirniadol. Mae'r pennaeth yn eu cynghori'n realistig ac yn onest ynglŷn â sut i wella'r ddarpariaeth, er enghraifft am yr angen i herio disgyblion i wella'u medrau gwyddonol a datblygu'r gweithgareddau asesu ymhellach. Mae'r

llywodraethwyr yn wybodus am flaenoriaethau cenedlaethol, fel diwygio’r ddarpariaeth ADY, ac effaith tlodi ar fywydau rhieni a disgyblion o fewn eu cymuned. Maent yn sicrhau bod trefniadau pwrpasol gan yr ysgol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan yr ysgol berthynas agos ac effeithiol gyda'r rhieni a’r gymuned leol. Mae’r ysgol yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd drwy gyfryngau amrywiol, cyflwyniadau defnyddiol ac yn fwy diweddar drwy foreau coffi sy’n cryfhau ymwybyddiaeth rhieni o ddisgwyliadau a llwyddiannau’r ysgol. Mae’r rhieni’n cael eu hannog i fod yn rhan allweddol o fywyd yr ysgol ac yn cyfoethogi’r dysgu drwy rannu eu diddordebau a’u harbenigeddau fel garddio, er enghraifft.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o’i chyllid ac yn defnyddio grantiau penodol fel y grant datblygu disgyblion yn effeithiol er mwyn gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sydd yn gymwys i'w dderbyn. O ganlyniad, dros amser, mae’r disgyblion hyn yn dangos cynnydd da yn eu medrau sylfaenol o’u mannau cychwyn. Yn ogystal, mae gwariant grantiau yn caniatáu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol wrth ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**This document has been translated by Trosol (Welsh to English).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   03/04/2024